Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

24 Hydref 2022 1:30pm

## Drwy Teams

**Yn bresennol:**
Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Malcom Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd Jane Tremlett (JT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Sian Howys (SH), Cyngor Sir Ceredigion
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Alun Williams (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Pennie Muir (PM), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (TH), Cyngor Sir Penfro
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Kelvin Barlow (KB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Sarah J Bolton (SB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Rebecca A Jones (RJ), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Sharon Breakwell, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cymryd nodiadau)
Michael McClymont, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cymryd nodiadau)
Bethan Hopkins (BH), Gwestai - Archwilio Cymru
Alison Lewis (AL), Gwestai - Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau:**
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jill Patterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kevin Pett, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

### 1. Croeso/Cyflwyniad

Croesawodd JH bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, ynghyd ag Alison Lewis a Bethan Hopkins o Archwilio Cymru, a oedd yno fel arsylwyr. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

Esboniodd JH y byddai dwy ran i'r cyfarfod. Byddai Rhan 1 yn ymdrin â busnes o'r cyfarfod oedd wedi'i drefnu ar gyfer 12 Medi ond a gafodd ei ohirio. Byddai Rhan 2 yn weithdy gosod blaenoriaethau'r dyfodol.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.05.2022

Cytunwyd bod nodiadau cyfarfod 16 Mai 2022 yn gywir ac ni nodwyd unrhyw sylwadau. Cadarnhaodd KB statws y cynllun gweithredu a rhoi diweddariadau ar gynnydd a wnaed o ran tabl y cynllun gweithredu presennol, a nodwyd.

Diolchodd JH yn ffurfiol i Sian Howys, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion, am ei gwaith gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a dymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

## 3. Cytuno ar Gynllun Gweithredu NYTH

Cyflwynodd SB gynllun gweithredu NYTH, gan ddarparu trosolwg manwl. Adnodd cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw Fframwaith NYTH, sy'n ceisio sicrhau dull 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

Cadarnhaodd SB fod *Alder Advice*, oedd â phrofiad blaenorol o'r dull *"No Wrong Door*" yng Ngogledd Cymru, wedi llwyddo yn ei dendr am y contract i'n cynorthwyo i gynnal adolygiad yng nghyswllt fframwaith NYTH a datblygu cynllun gweithredu.

Roedd holiadur, a fyddai'n llywio'r cynllun gweithredu, wedi'i ddosbarthu i randdeiliaid perthnasol, a byddai canfyddiadau'r holiadur yn cael eu crynhoi a'u rhannu yn y flwyddyn newydd.

Diolchodd JH i SB am y cynnydd a wnaed ar yr agenda hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 2. Cytuno ar Adroddiad Blynyddol y Gofalwyr

Rhoddodd PM drosolwg manwl o Adroddiad Blynyddol y Gofalwyr 2021/2022, i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Diolchodd JH i PM am lunio a chyflwyno'r adroddiad, a gafodd ei ganmol ganddi hi a HLL a'i gymeradwyo gan y bwrdd.

Gofynnodd KB i'r bwrdd nodi bod LlC wedi cadarnhau dyraniad o £9m ar gyfer cronfa gwyliau byr Cymru gyfan. Ychwanegodd PM fod Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn lobïo am newid y derminoleg o seibiant i "Gwyliau Gofalwyr".

Mynegodd HLL bryder am effaith yr argyfwng costau byw presennol ar ofalwyr di-dâl. Rhoddodd PM enghraifft o fenter "Cadw'n gynnes, Cadw'n dda" Sir Benfro, a oedd yn cael ei datblygu'n lleol.

## 4. Fforwm Gwerth Cymdeithasol

Rhoddodd EB drosolwg o'r adroddiad, gan dynnu sylw at y cynnydd a wnaed o ran sefydlu Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gorllewin Cymru. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

Nod y fforwm yw cefnogi arloesedd a hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol. Cafodd cyfarfod wyneb yn wyneb o'r fforwm ei gynnal yn Arberth yn gynharach yn y flwyddyn a bydd cyfarfod rhithwir arall yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd. Mae *Practice Solutions* yn cefnogi'r gwaith hwn a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu o fewn y flwyddyn newydd.

Diolchodd JH i EB am yr adroddiad a'r diweddariad ar y cynnydd.

## <u>Rhan 2 - Gweithdy Blaenoriaethau'r Dyfodol</u>

Aethpwyd ati i gynnal gweithdy i drafod blaenoriaethau'r dyfodol. Dywedodd KB mai pwrpas y gweithdy oedd:

- Adlewyrchu ar lwyddiannau'r 12 mis diwethaf
- Ystyried Canfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad
- Trafod blaenoriaethau gyda'n gilydd

Bydd crynodeb o'r canfyddiadau yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r aelodau yn y cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf - 23 Ionawr 202**

**BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU: CAMAU GWEITHREDU 2022**

| *Rhif adnabod* | *Camau i'w cymryd* | *Arweinydd* | *Amserlen* | *Cynnydd* | *Statws* |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/22/3 | Cyflwyno maniffesto wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w gymeradwyo | KB | Gorffennaf 2022 | Adolygiad yn 2023 | |
| 07/22/1 | Rhannu gwaith mapio prosiectau a ariennir yn y cyfarfod nesaf | KB | Gorffennaf 2022 | Wedi'i ohirio tan gyfarfod Ionawr 2023 - dim cynnydd pellach wedi'i wneud. Tynnu oddi ar y rhestr o gamau gweithredu<br>Wedi'i baratoi ond heb ei rannu. Pan fydd ar gael bydd yn cael ei rannu KB | |
| 05/22/1 | EL i rannu Cyflwyniad ar Ddatblygu Clwstwr Carlam gyda KB | EL | Hydref 2022 | Rhannu sleidiau yn dilyn cyfarfod heddiw | |
| 05/22/3 | KB a'r tîm i chwilio am leoliad addas ar gyfer cyfarfod nesaf wyneb yn wyneb | KB | | Lleoliad wedi'i archebu ar gyfer y cyfarfod hwn | |
| 05/22/4 | KB ac IEG i roi sylw i'r syniad o wobrau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru | KB | | Trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer 6 Rhagfyr 2022 | |